

Adroddiad i'r	Cyngor Sir
Dyddiad y cyfarfod	25 ^{ain} Ionawr 2022
Aelod/ Swyddog Arweiniol	Julian Thompson-Hill /Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Awdur yr Adroddiad:	Leah Gray (Civica) / Steve Gadd
Teitl	Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2022/23

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mabwysiadu Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor Cymru Gyfan a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Chynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor Cymru Gyfan a Rheoliadau Diwygiadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2022.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Roedd Deddf Diwygio'r Gyfundrefn Les 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu budd-dal treth y cyngor yn ei ffurf bresennol ar draws y DU. O 31 Mawrth 2013 daeth budd-dal treth y cyngor i ben a chafodd y cyfrifoldeb am ddarparu cymorth ar gyfer treth y cyngor a'r cyllid sy'n gysylltiedig ag ef ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru, gynllun newydd i ddarparu cymorth treth y cyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2013. Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r ddau set o reoliadau ar 7 Rhagfyr 2021 ac mae angen mabwysiadu'r Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor newydd a'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau diwygiadau 2022 erbyn 31 Ionawr 2022.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau yn mabwysiadu'r Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2022 o ran blwyddyn ariannol 2022/23.

3.2. Bod yr aelodau'n cymeradwyo'r elfennau dewisol o'r cynllun, a ddangosir yn adran 4.4, ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Y Cynllun Arfaethedig 2022/23

Wrth ystyried datblygu cynllun newydd ar gyfer 2022/23 fe gytunodd Llywodraeth Cymru y dylai'r cynllun diwygiedig archwilio'r paramedrau canlynol:

- Parhau ag un cynllun a ddiffinnir yn genedlaethol i ddarparu lefel gyson o gymorth i hawlwyd ledled Cymru. Mae lefel uchafswm y cymorth wedi'i bennu ar 100%.
- I barhau i ddarparu nifer fach o elfennau dewisol, yn debyg i'r rhai sydd ar gael o dan y cynllun presennol, gan alluogi awdurdodau lleol i ymateb i'w hamgylchiadau lleol gwahanol (ar yr amod bod costau unrhyw amrywiad lleol yn cael eu hariannu'n lleol).
- Parhau i fod yn seiliedig ar ddiwygio'r system Budd-dal Treth y Cyngor flaenorol, tan 2023-24 fel bod y risgiau gweithredol yn cael eu rheoli ac y gellir parhau i ddarparu cymorth.

4.2 Uwchraddio ar gyfer 2022/23

Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor diwygiedig 2013 yn uwchraddio ffigurau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo'r hawl i ostyngiad yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Mae nifer o ffigurau eraill wedi'u cynnwys yn yr uwchraddiad ar gyfer 2022/23. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lwfansau personol mewn perthynas ag oedran gweithio, premiymau gofalwr ac anabl. Mae'r ffigurau ariannol mewn perthynas â'r lwfansau hyn wedi'u diwygio ac wedi cynyddu yn unol â'r cynnydd mewn costau byw. Bydd y confensiwn yn codi'n unol â ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Medi o'r flwyddyn flaenorol (2021), sef 3.1%.
- Lwfansau personol mewn perthynas â phensiynwyr. Mae'r ffigurau ariannol mewn perthynas â chyfraddau pensiynwyr wedi eu diwygio ac yn cyd-fynd â Budd-dal Tai. Mae'r rhain wedi cael eu cyfrifo gyda chymorth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac maent wedi cael eu huwchraddio drwy wahanol dechnegau. Er enghraifft, mae Isafswm Gwarant Safonol Credyd Pensiwn yn cael ei uwchraddio gan enillion, tra bod y Pensiwn Ychwanegol a'r cynyddrannau'n cael eu huwchraddio gan brisiau.

- Didyniadau annibynyddion Mae'r ffigurau ariannol ar gyfer y bandiau incwm a'r didyniadau a wnaed mewn perthynas ag annibynyddion wedi'u huwchraddio. Os na chaiff diwygiadau eu gwneud, ni fyddai didyniadau priodol yn cael eu gwneud o ddyfarniadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor, gan na fyddai'r trothwyon incwm yn adlewyrchu enillion cyfartalog mwyach, ac ni fyddai'r didyniad yn adlewyrchu cost gyffredinol y dreth gyngor mwyach.

4.3 Diwygiadau Ychwanegol

Gwladolion Affgan a Gwladolion y DU o Affganistan

Bwriad y gwelliant hwn yw cefnogi gwladolion Affganistan a gwladolion y DU o Affganistan o ganlyniad i'r newidiadau diweddar i Lywodraeth Affganistan.

Mae'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor 2013 yn gwneud darpariaeth i eithrio'r grŵp hwn rhag y rhai a gyfrifir fel personau nad ydynt ym Mhrydain Fawr. Effaith y gwelliannau hyn yw y bydd y grŵp hwn yn gymwys i gael ei gynnwys yng Nghynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor awdurdod lleol a bydd yn gymwys i gael gostyngiad os ydynt yn bodloni gofynion eraill y Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor.

Cynllun gwneud iawn ar gyfer goroeswyr cam-drin plant hanesyddol mewn gofal yn yr Alban.

Derbyniodd Deddf Gwneud Iawn ar Gyfer Goroeswyr (Cam-drin Plant Hanesyddol mewn Gofal) (Yr Alban) 2021 Gydsyniad Brenhinol ar 23 Ebrill 2021. Mae'r Ddeddf yn sefydlu cynllun i wneud taliadau ariannol ('taliadau gwneud iawn') i oroeswyr cam-drin plant hanesyddol mewn gofal yn yr Alban.

Er mwyn sicrhau nad effeithir yn negyddol ar unrhyw ymgeisydd sy'n byw yng Nghymru oherwydd ei fod wedi cael taliad gwneud iawn, gwneir diwygiad canlyniadol i ddiystyru unrhyw daliad gwneud iawn a geir o gyfrifo cyfalaf ymgeisydd o dan y cynllun. Gwneir diwygiad tebyg hefyd i ddiystyru unrhyw daliad ex gratia a wneir gan Weinidogion yr Alban o'r Cynllun Talu Ymlaen Llaw a sefydlwyd gan Weinidogion yr Alban mewn perthynas ag achosion hanesyddol o gam-drin plant mewn gofal.

Pensiynwyr sy'n cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth: lwfans personol

Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor 2013ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer cyfraddau lwfans personol uwch neu is ar gyfer pensïynwyr yn dibynnu a ydynt dros 65 neu o dan 65 yn y drefn honno. Nid oes mwyach bensïynwyr (o fewn ystyr y Rheoliadau) sydd o dan 65 oed. Gwneir gwelliant felly i ddileu'r cyfeiriadau diangen. Effaith y gwelliant yw bod gan bensïynwyr yng Nghymru hawl i gyfradd uwch o lwfans personol.

4.4. Elfennau Dewisol i'w Penderfynu gan y Cyngor

Argymhellir bod y Cyngor yn mabwysiadu'r tair elfen ddewisol ganlynol o'r cynllun:

- peidio â chynyddu'r cyfnod talu estynedig safonol o 4 wythnos o Ostyngiad Treth y Cyngor i ymgeiswyr ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith, os ydynt wedi bod yn derbyn budd-dal cymwys perthnasol.
- diystyru 100% o Bensïynau Anabledd Rhyfel a Phensïynau Rhyfel Gwragedd Gweddwr wrth gyfrifo incwm.
- peidio â chynyddu'r cyfnod mwyaf ar gyfer ôl-daliadau i Ostyngiadau Treth y Cyngor y tu hwnt i'r 3 mis safonol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd mabwysiadu'r cynllun hwn yn helpu pobl ddiamddiffyn, gan sicrhau eu bod yn byw mor annibynnol ag sy'n bosibl, yn lleihau digartrefedd a thlodi ymysg plant. Pe na bai'r ffigurau uwchraddio'n cael eu mabwysiadu, byddai'r meini prawf cymhwysedd wedi dyddio, ac nid yw'r trothwyon enillion bellach yn adlewyrchu cost gyffredinol treth y cyngor. Byddai ymgeiswyr dan anfantais drwy leihau neu atal eu hawl i gymorth. Gallai hefyd achosi dryswch i ymgeiswyr a chynyddu'r baich gweinyddol ar yr Awdurdod Lleol a darparwyr cymorth lleol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae £8.536m wedi ei nodi yn y setliad ar gyfer Sir Ddinbych ar gyfer Cymorth Treth y Cyngor gan Lywodraeth Cymru (£8.920m y llynedd). Fodd bynnag y gwariant presennol yw £10.663m a phe bai Treth y Cyngor Net yn cynyddu 2.95% (h.y. y cynnydd a gynigir gan y cyngor) y gwariant a ragwelir ar gyfer 2022/23 yw tua £10.978m. Mae hyn yn rhoi

diffyg o tua £2.442miliwn ar gyfer 2022/23 y gwnaed darpariaeth gyllidebol ar ei gyfer ers 2013 ac mae darpariaeth ychwanegol pellach o £350k wedi'i chynnig fel rhan o gynigion y gyllideb ar gyfer 2022/23.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes Asesiad o'r Effaith ar Les wedi'i gwblhau ar gyfer yr adroddiad hwn gan fod y cynnig ar gyfer ymestyn y cynllun presennol yr ymgynghorwyd arno yn 2012. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cynnig (na newidiadau i'r elfennau dewisol), fodd bynnag mae'n ofyniad cyfreithiol bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynllun yn ffurfiol yn flynyddol.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Ddim yn berthnasol gan fod hwn yn estyniad o'r cynllun presennol, yr ymgynghorwyd arno yn 2012.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu cynllun gostyngiadau yn flynyddol. Gan fod cyllid ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor wedi aros yn sefydlog, neu wedi lleihau ar draws Cymru am nifer o flynyddoedd mae effaith y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar y cynllun gostwng yn gorfod cael ei ariannu'n lleol. Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn wedi'u cynnwys fel rhan o gynigion y gyllideb ar gyfer 2022/23.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae risgiau i'r Cyngor o beidio â mabwysiadu'r cynllun hwn, sef y byddai'n rhaid i Gyngor Sir Ddinbych wedyn fabwysiadu'r cynllun diofyn, a allai gynyddu cyfanswm y gost.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013.

Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013.

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2022.